TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Agored Cymru Diploma yng Ngholeg Brenhinol Nyrsio Cymru Cyswllt Gofal Iechyd Lefel 3

Yn gryno

Mae Coleg Gwent yn cynnig llwybr cyflym newydd a chyffrous i gwrs pontio Nyrsio, a ddatblygwyd ar y cyd â Phrifysgol De Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Choleg Brenhinol Nyrsio Cymru i gefnogi ymgeiswyr lefel 3 presennol i symud ymlaen at Raddau Israddedig mewn Nyrsio ar ôl dros 20 wythnos o astudiaeth ddwys.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

... Unrhyw un sydd â chymhwyster Diploma lefel 3 mewn pwnc cysylltiedig yn barod sy'n anelu at symud ymlaen i Radd mewn Nyrsio.

... Gall unrhyw un a gyflogir fel gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd yn bresennol ymgeisio ac aros yn ei rôl wrth ymgymryd â'r cwrs.

... Unigolion brwdfrydig a rhagweithiol sydd wedi ymrwymo i lwyddo ar y cwrs dwys, heriol ond gwerth chweil hwn.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Cynnwys y cwrs

Byddwch yn mynychu'r coleg am 1 diwrnod yr wythnos a PDC (Prifysgol De Cymru) 1 diwrnod y mis ac am y 4 diwrnod sy'n weddill byddwch yn aelod cyflogedig o staff yr ABUHB fel Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd gyda hyblygrwydd o ddewis eich lleoliad gwaith.

Bydd y cwrs hwn yn eich cefnogi i ddangos tystiolaeth o'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol sy'n dod o ddysgu seiliedig yn y dosbarth ac ymarfer clinigol. Bydd yn rhoi cyfle i chi ddangos eich bod yn deall pwysigrwydd y rôl Cynorthwywyr Gofal Iechyd a gofal, cynhwysiant a myfyrdod proffesiynol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Byddwch yn astudio amrywiaeth o unedau gan gynnwys

· Sgiliau cyfathrebu i'w defnyddio mewn lleoliadau gofal iechyd

· Iechyd a Diogelwch

· Diogelu

· Rheoli heintiau

Gofynion Mynediad

Bydd ymgeiswyr eisoes yn meddu ar Ddiploma lefel 3 mewn pwnc cysylltiedig (er enghraifft, Diploma Mynediad Agored neu Ddiploma Cenedlaethol BTEC neu Egwyddorion a Chyd-destun CBAC mewn pynciau cysylltiedig megis Nyrsio Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gofal Iechyd neu Wyddoniaeth.

Bydd ymgeiswyr fel arfer yn meddu ar TGAU mewn Mathemateg a Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf ar radd C neu'n uwch, neu gymhwyster cyfatebol ar o leiaf lefel 2 ac, yn ddelfrydol, wedi astudio pwnc gwyddoniaeth ar o leiaf lefel 2.

Bydd angen i ddysgwyr hefyd gwblhau proses recriwtio a hyfforddiant sefydlu y Byrddau Iechyd yn llwyddiannus, sy'n cynnwys Asesiad Iechyd Galwedigaethol a DBS.

Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau am y gofynion mynediad.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd cwblhau'r cwrs a'i holl ofynion yn llwyddiannus yn gwarantu cyfweliad ar gyfer y rhaglen nyrsio israddedig yn PDC.

Mae'r rhaglen hon yn gyfwerth â 42 credyd ar lefel 3 a 15 ar lefel 4 gyda chwblhau cyfnodolyn myfyriol disgwyliedig; a bydd yn cario pwyntiau UCAS gyda hi.